EISTEDDFOD GADEIRIOL DYFFRYN OGWEN

26 Tachwedd, 2019

Annwyl Gwenan,

Diolch yn fawr i Ysgol Llanllechid am gefnogi Adran Llên yr Ifanc eto eleni.

Rydym fel pwyllgor yn gwerthfawrogi bod y disgyblion yn cael cyfle ac ysgogiad i ysgrifennu storïau a cherddi ar gyfer y cystadlaethau. Dymunwn gyfleu ein diolch i ti ac i'r sawl a fu'n eu cymell.

Llongyfarchiadau i'r buddugwyr a diolch i bob un a gyflwynodd stori neu gerdd. Rwy'n dychwelyd y cynhyrchion gyda'r beirniadaethau a'r gwobrau efo'r llythyr hwn.

Diolch hefyd i'r plant a oedd yn rhan o'r Ddawns Flodau, ac i'w hyfforddwyr. Roedd eu cyfraniad i Ddefod yr Orsedd yn arbennig, ac maent yn haeddu canmoliaeth.

Cofion,

Ieuan Wyn
Ysgrifennydd yr Is-bwyllgor Llên